**Cyflwyniad y Cadeirydd**

- Esboniodd y cadeirydd mai rôl y panel yw bod yn gyfaill beirniadol.
- Trafododd y cadeirydd gylch gorchwyl y panel.
- Roedd pawb yn hapus â'r cylch gorchwyl.

**Richard Rowlands**

- Esboniodd RR ei fod yn rheoli'r Tîm Perfformiad Corfforaethol
- Ben Smith yw ei reolwr a Sarah Caulkin yw'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol
- Mae ei gyfrifoldebau'n ymwneud â pherfformiad, rheoli risgiau a rhai dyletswyddau o ran archwilio
- Hefyd mae ganddo drosolwg o'r fframwaith rheoli gan gynnwys adrodd a datblygu DPA
- Mae ei adran yn gosod y canllawiau ar gyfer perfformiad ac yn helpu adrannau i'w rheoli
- Mae'r adran yn casglu data ynglŷn â'r DPA a chaiff y data ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Cabinet a'r Adran Graffu. Mae'r adran hefyd yn sicrhau bod canllawiau a gweithdrefnau o ran hyn yn cael eu dilyn
- Pwysleisiodd RR nad yw ei adran yn gyfrifol am wir berfformiad adrannau a byddai'n rhaid i'r adran graffu siarad â'r adran honno'n uniongyrchol i gael gwybodaeth
- Mae RR yn gallu esbonio tueddiadau ac yn gallu dadansoddi'r data ond bydd yn rhaid i reolwyr esbonio'r rhesymau dros welliannau a dirywiadau
- Nod RR yw atebolrwydd a gwelliant ac maent yn llunio adroddiadau chwarterol ac adroddiadau diwedd blywddyn

**Cwestiynau i RR a thrafodaeth**

- Cadeirydd - Pwy sy'n gosod y targedau hyn?
- RR - cyfrifoldeb y gwasanaeth yw hyn ond maent yn cael eu gosod o fewn canllawiau gan RR a'u harchwilio yn erbyn fframweithiau. Yna, maent yn mynd i Benaethiaid Gwasanaeth am drafodaeth, y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet i gytuno arnynt a'u gosod
- Cadeirydd - Ydy'r rhain yn cael eu gosod yn realistig? Swyddogaeth y panel yw craffu ar hyn. Mae'n bwysig nodi nad yw perfformiad yn gallu gwella bob amser
- MJ - Rydym yn gallu ysgrifennu llythyrau i'r adrannau'n gofyn am fwy o wybodaeth ar berfformiad os oes angen
- DT - Ydy'r swyddogion o adran RR yn herio targedau a osodir gan swyddogion?
- RR - Ydynt ond os yw'r adran neu'r mesur yn newydd mae'n arfer da gadael iddo redeg am flwyddyn ac wedyn ei adolygu i gael gwaelodlin
- PHW - Faint o wyddoniaeth a ddefnyddir i bennu'r targedau hyn?
- RR - Rydym yn defnyddio gwybodaeth lle bydd hi ar gael ond gall fod yn gymhleth. Os ydym eisiau gwella yna gall targedau gael eu hestyn a gellir gosod targedau sylfaenol a dyheadol

- CH - Weithiau mae targedau'n newid fel arfer parhaus. Er enghraifft efallai y bydd y gwasanaeth yn newid a bydd yn wahanol i'r llynedd
- PHW - Byddech yn disgwyl gweld cynnydd yn y DPA bob blwyddyn
- RR - Mae angen rhai sefydlog a chadarn arnom fel y gallwn ddadansoddi bob blwyddyn ond mae barn a rheoleiddio'n achosi amrywiad yn hytrach na sefydlogrwydd. Mae'r newidiadau hyn yn cael effaith. Mae WBFGA 2015 wedi newid dangosyddion perfformiad yn fawr
- PHW - Mae pob DPA yn cael ei asesu'n flynyddol a'i newid. A gawn ni wybodaeth ar y rhai sydd wedi newid a pham? A gawn ni adroddiad ar y rhai hen, newydd a pham?
- RR - Mae targedau sydd wedi'u haddasu i fodloni WBFGA 2015 wedi cael eu newid er perthnasedd yn hytrach na gwelliant, felly mae cymharu bob blwyddyn yn ddiddefnydd
- IM - Sut rydym yn cymharu â Lloegr yn genedlaethol?
- Ni ellir cymharu perfformiad Cymru a Lloegr.

**<u>Cynllun Gwaith</u>**

- Cytunwyd ar y dyddiadau a'r amserau'n unfrydol gan y panel.
- Gwneir rhai newidiadau i'r cynllun gwaith wrth i'r panel ddatblygu
- Efallai y bydd rhai adroddiadau comisiynu i'w hychwanegu at y cynllun gwaith ar ôl cyhoeddi'r dyddiadau

**<u>Camau gweithredu</u>**

**<u>Oddi wrth RR</u>**
**<u>A gawn ni adroddiad newydd ar newidiadau DPA a pham. Pa effaith y mae/y bydd hyn yn ei chael?</u>**

**<u>Y Diweddaraf: E-bostiwyd RR ar 03.08.17</u>**